

Ymgynghoriad ar y meini prawf trothwy diwygiedig

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar y meini prawf trothwy diwygiedig. Mae'n dilyn trefn y ddogfen ymgynghori a'r holiadur ffurfiol, ac yn crynhoi'r prif faterion a themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion.

Ynghylch yr ymgynghoriad

2. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am ddeuddeg wythnos, gan ddechrau ar 13 Rhagfyr 2016 a dod i ben ar 7 Mawrth 2017. Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan gynifer o unigolion a sefydliadau â phosibl, roedd holiadur ar-lein ar gael i'w chwblhau gan sefydliadau ac unigolion yn ystod y cyfnod ymgynghori. A threfnom nifer o ddigwyddiadau ymglymu ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd ledled Prydain.

Ymatebion i'r arolwg

3. Derbyniom 68 o ymatebion i'r arolwg. O'r rhai a ymatebodd, roedd 19 yn sefydliadau, a 49 yn unigolion, yn aelodau cofrestredig, hyfforddeion cyn-gofrestru ac yn aelodau o'r cyhoedd. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr unigol (48, tua 94 y cant) yn eu galw'u hunain yn weithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd tua 80 y cant (38) o'r rhai oedd yn eu galw'u hunain yn "weithwyr fferyllol proffesiynol" yn fferyllwyr, a rhyw 19 y cant (9) yn dechnegwyr fferyllol.
4. Clywom hefyd gan grŵp cleifion, cwmnïau cyfreithiol, cyrff proffesiynol a chyrrff cynrychioli (gan gynnwys rheoleiddwyr gofal iechyd a sefydliadau fferyllol) a nifer o gwmnïau fferyllol lluosog.
5. Dylid nodi bod 68 o ymatebion i'r cwestiynau meintiol (gydag ateb ie/nage yn yr ymateb), ond bod nifer yr ymatebion i'r cwestiynau ansoddol, agored lawer yn is. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn atodiad A.

Digwyddiadau ymglymu

6. Gan gydnabod natur dechnegol yr ymgynghoriad hwn, roedd digwyddiadau ymglymu yn rhan hanfodol o'n gweithgareddau ymgynghori ac roeddent yn arbennig o ddefnyddiol wrth gyrraedd y grwpiau hynny fyddai'n llai tebygol o ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r ffurflen ar-lein, gan gynnwys cleifion unigol ac aelodau'r cyhoedd. Defnyddiwyd cwestiynau'r holiadur ar-lein yn strwythur i'r trafodaethau yn ein digwyddiadau ymglymu.
7. Cynhaliom bum digwyddiad ar hyd a lled Prydain, gan gynnwys tri grŵp ffocws a dau ddigwyddiad i randdeiliaid. Cafwyd hefyd nifer o gyfarfodydd unigol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, er mwyn clywed eu barn ar yr ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o'r digwyddiadau ymglymu a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn atodiad B.

Ein dull dadansoddi

8. Cyflwynwyd mwyafrif llethol yr ymatebion drwy SmartSurvey gan ddefnyddio holiadur ffurfiol yr ymgynghoriad. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau (ag ateb ie/nage) wedi eu nodi, gan roi'r nifer o ymatebion yn ogystal â'r canrannau.
9. Datblygwyd fframwaith codio er mwyn nodi materion a themâu oedd yn dod i'r amlwg yn yr ymatebion, ynghyd â phatrymau a syniadau cyffredin, ac i greu strwythur ar gyfer y dadansoddiad. Cafodd y fframwaith ei adeiladu o'r gwaelod, drwy broses iterus o nodi'r hyn oedd y dod i'r amlwg drwy'r data, yn hytrach na gorfodi fframwaith a oedd wedi ei osod cyn dadansoddi'r data ar y wybodaeth oedd yn dod i'r fei.
10. Cafodd y fframwaith codio yma ei ddefnyddio i ddadansoddi'r cwestiynau agored. Roedd natur ansoddol yr ymatebion hyn yn golygu bod amrywiaeth barn ac amrywiaeth yn y rhesymeg y tu ôl i'r farn honno. Cafodd yr ymatebion eu hystyried yn ofalus a'u codio drwy'r broses ddadansoddi iterus.
11. Mae'r prif faterion a themâu yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn yn y sylwadau dan y cwestiwn perthnasol. I gloi'r broses ddadansoddi, cafodd y fframwaith codio ei ddefnyddio i ddadansoddi'r ddau fath o ymateb a'r nodiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau, ac ymatebion eraill a dderbyniwyd.

Yr hyn a glywom

12. Yn gyffredinol, cafodd y meini prawf a gynigiwyd eu derbyn yn gadarnhaol drwyddi draw. Roedd yr ymateb a gafwyd drwy'r arolwg a'r digwyddiadau ymglymu yn debyg iawn i'w gilydd, gyda'r mwyafrif yn cefnogi'r cynigion. Cafwyd ymateb llai ffafriol gan nifer fechan o ymatebwyr. Roedden nhw'n teimlo bod y meini prawf naill ai'n rhy aneglur, yn rhy eang neu'n agored i gael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol unigolion. Cyflwynodd rhai welliannau, gan gynnwys canllawiau manwl, hyfforddiant ar gyfer staff CFC ac ail-fframio'r meini prawf mewn termau cadarnhaol.
13. Mewn ymateb i nifer o gwestiynau, cafwyd barn debyg yn cael ei hailadrodd yn fynych ar rai materion, eglurder y meini prawf, er enghraifft, felly rydym wedi rhoi'r rhain mewn grwpiau dan y cwestiwn perthnasol er mwyn osgoi ail-ddweud. Soniodd ystod o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ynghyd â nifer o bobl mewn grwpiau ffocws, am eu hawydd i gael deunyddiau esboniadol gan gynnwys map o'r broses benderfynu fyddai'n egluro hierarchaeth y drefn benderfynu ac enghreifftiau o astudiaethau achos a allai ddiffinio'n gliriach sut byddai'r meini prawf newydd yn gweithio'n ymarferol.
14. Cawsom adborth hefyd ar nifer o faterion oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys sylwadau cyffredinol ar brosesau ymchwilio'r CFC ac atebolrwydd staff nad ydynt wedi eu cofrestru. Byddwn yn ystyried y rhain, a materion eraill y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, dan y llifodded project perthnasol.
15. Mae'r adran nesaf yn cyflwyno'r prif faterion a themâu a gododd fesul cwestiwn, ac maen nhw'n cael eu cyflwyno yn nhrefn yr holiadur.

Eglur a dealladwy

1. Mae Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn caniatáu i ni gael meini prawf trothwy, sy'n ein cynorthwyo i benderfynu a ddylid atgyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio. A ydych chi'n meddwl bod y meini prawf trothwy yn glir ac yn hawdd eu deall?

Ydw	50	75%
Nac ydw	17	25%
Cyfanswm	67	100%

Eglurwch pam

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, gan gynnwys y rhai yn y grwpiau ffocws a'r digwyddiadau ymglymu, o'r farn bod y meini prawf yn glir ac yn ddealladwy. Roeddwn nhw'n credu eu bod yn deg, yn syml, yn gryno ac yn adlewyrchu disgwyliadau'r CFFC a'r cyhoedd. Roedd nifer fechan o'r ymatebwyr hyn, fodd bynnag, hefyd yn credu bod y meini prawf yn amwys mewn manau ac roeddent o'r farn bod angen rhagor o eglurder yng ngeiriad y darn yn ymwneud ag iechyd. Roedd ambell ymatebydd yn croesawu'r ffordd yr oedd y meini prawf yn canolbwyntio ar ymddygiadau a gweithredoedd aelodau cofrestredig. Ystyriwyd cynnwys prawf budd y cyhoedd yn gam cadarnhaol. Croesawyd y ffaith fod y broses yn fwy tryloyw gan un sefydliad a rheoleiddiwr arall. Roedd rhai yn gobeithio y byddai'r meini prawf yn gwella safonau mewn fferylliaeth drwy egluro'r ymddygiadau sy'n ddisgwyliedig gan aelodau.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod y meini prawf yn rhy eang a goddrychol, ac y gallen nhw o bosib beri dryswch ac arwain at wneud penderfyniadau anghyson. Y rheswm amlaf am y dryswch oedd y ffaith bod y meini prawf arfaethedig wedi eu hysgrifennu yn y negyddol. Roedd eraill yn credu bod angen hyfforddiant pellach ar staff y CFFC a chanllawiau ychwanegol i egluro rhai agweddau ar y meini prawf arfaethedig a mynd i'r afael â risgiau posibl i brosesau penderfynu.

I gloi, cynigiwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau i wella'r meini prawf. Roedd cred eang y byddai ail-fframio'r meini prawf yn y cadarnhaol yn eu gwneud yn haws eu deall a'u defnyddio'n ymarferol.

Defnyddio'r meini prawf yn ymarferol

2. Defnyddir y meini prawf gan wneuthurwyr penderfyniadau o fewn y CFFC sydd ynghlwm wrth y gwaith o ymchwilio i bryderon er mwyn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio. A ydych chi'n meddwl bod y ffordd yr ydym yn cymhwyso'r meini prawf yn ymarferol yn glir?

Ydw	49	74%
Nac ydw	17	26%
Cyfanswm	66	100%

Eglurwch pam

Roedd yn galonogol bod mwyafrif yr ymatebwyr, a'r rhai a fynychodd grwpiau ffocws a digwyddiadau ymglymu, yn credu ei bod yn eglur sut byddai'r meini prawf yn cael eu cynhwyso'n ymarferol. Roedden nhw o'r farn bod y broses benderfynu wedi ei hegluro'n glir a'i bod yn symlach na'r meini prawf presennol. Nododd nifer fechan o'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol rai manau y gellid eu gwneud yn fwy eglur, megis pa feini prawf sydd angen eu cyrraedd i gyfeirio achos at Bwyllgor Ymchwilio a nododd rhai y byddai astudiaethau achos yn hybu dealltwriaeth. Roedd cwmni cyfreithiol o'r farn y byddai'n well petai'r meini prawf yn nodi y byddai achos yn cael ei gyfeirio ddim ond pan fo tystiolaeth ar gael i gefnogi hynny.

Roedd llawer o'r ymatebwyr oedd yn credu bod y meini prawf yn aneglur hefyd o'r farn bod y ffordd y byddent yn cael eu defnyddio'n ymarferol yr un mor aneglur. Roedd rhai ymatebion yn credu bod angen esboniad helaethach ar rai agweddau ar y meini prawf, megis *risg bosibl* neu *er budd y cyhoedd*. Roedd eraill yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch a oedd angen cyrraedd pob maen prawf cyn cyfeirio achos at Bwyllgor Ymchwilio.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gellid niweidio ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pe bai penderfyniadau gwael yn cael eu gwneud ac roeddent yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth ynghylch pwy fyddai'n gwneud penderfyniadau, a'u cymwysterau. Roedd un sefydliad yn poeni y gallai'r meini prawf newydd beri i rai achosion gael eu cau'n rhy gynnar ac arwain felly at risg i ddiogelwch y cyhoedd. Roedd hefyd yn poeni sut y byddai cymesuredd a mewnwleidiad yn cael eu hasesu o fewn y broses, yn enwedig yng nghyd-destun budd ehangach y cyhoedd. Cwestiynodd hefyd sut byddai budd y cyhoedd yn rhyngweithio gyda'r meini prawf.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynghylch cysyniad 'niwed'. Roedd rhai'n cytuno ei bod yn gywir i ganolbwyntio ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y niwed, yn hytrach na'r niwed ei hun. Roedd eraill yn poeni nad oedd y meini prawf arfaethedig yn cynnwys cyfeiriadau penodol at niwed. Roedd rhai, er enghraifft, yn teimlo y gallai hyn arwain at bob camgymeriad dosbarthu'n cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio, oherwydd y gallen nhw i gyd gael eu hystyried yn risg bosibl i ddiogelwch cleifion.

Roedd eraill oedd â phryderon yn teimlo y byddai canllawiau ychwanegol yn helpu rhanddeiliaid i ddeall sut y dylid cymhwyso'r meini prawf yn ymarferol.

Penderfyniadau cymesur, teg a chyson

3. Mae'r meini prawf hyn yn rhoi fframwaith i ni er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud penderfyniadau cymesur, teg a chyson ym mhob ymchwiliad. A ydych chi'n meddwl y bydd y meini prawf trothwy arfaethedig yn gwneud yn siŵr bod yr achosion cywir yn cael eu hatgyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio?

Ydw	50	76%
Nac ydw	16	24%
Cyfanswm	66	100%

Eglurwch pam

Roedd mwyafrif arwyddocaol o blith ymatebwyr yr arolwg, ynghyd ag adborth o'r grwpiau ffocws a'r digwyddiadau ymglymu, yn credu y byddai'r achosion cywir yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y meini prawf yn hyblyg ac yn deg, ac y byddai ystod o ffactorau, gan gynnwys unigolion sydd wedi dangos mewnwelediad ac wedi dysgu o'r mater, yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhai oedd yn cytuno hefyd yn teimlo bod angen canllawiau i sicrhau bod penderfyniadau'n gyson â'i gilydd.

Roedd nifer o sefydliadau, a rhai gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn teimlo y gallai'r meini prawf arwain at benderfyniadau oedd yn anghyson â'i gilydd. Roedd hyn am eu bod yn rhy eang a goddrychol. Roedd llawer yn teimlo bod angen hyfforddi unigolion oedd yn defnyddio'r meini prawf, ac adolygiadau cyson ar benderfyniadau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb posibl rhwng penderfyniadau. Yn groes i hyn, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn lleihau'r amser sydd ei angen i'r Pwyllgor Ymchwilio ddatrys pryderon, ac yn galluogi'r Pwyllgor i neilltuo mwy o amser i'r achosion cywir. Credent y byddai hyn yn gwella'r penderfyniadau a wneir. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu cynnwys ystyriaethau ynghylch budd y cyhoedd gan y byddai'n lleihau'r nifer o achosion a atgyfeirir yn ddiangen i'r Pwyllgor Ymchwilio.

Roedd un sefydliad yn credu y gallai symleiddio'r meini prawf fod yn broblematig a'i bod yn bosibl nad oedd y meini prawf arfaethedig yn adlewyrchu'r ystod lawn o faterion a gyflwynir gan aelodau i'r CFFC. Roedd sefydliad arall yn poeni y gallai'r newidiadau arfaethedig arwain at ddwyn y prawf posibilrwydd realistig (prawf a ddefnyddir ar y cam Pwyllgor Ymchwilio) yn gynt yn y broses, ac y byddai hyn yn codi materion ynghylch tryloywder a phroses deg. Roedd yr un sefydliad hefyd yn poeni y gallai'r broses arfaethedig ddileu achosion o'r broses yn gynnwys heb graffu pellach. Fe dynnodd y sefydliad sylw hefyd at y risg bosibl y gallai cleifion fod yn gyndyn o wneud cwyn pe na byddent yn ystyried y meini prawf yn glir neu'r broses atgyfeirio'n dryloyw.

Sylwadau eraill

4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y meini prawf arfaethedig?

Roedd rhai ymatebwyr am weld rhagor o eglurder ynghylch pam bod y newidiadau'n cael eu cynnig o gwbl. Cyfeiriodd eraill at yr effaith weithredol y byddai'r newidiadau yn ei chael ar eu gwaith, e.e. hyfforddiant/addysg ffurfiol ar gyfer hyfforddeion cyn-gofrestru. Roedd gan eraill gwestiynau am effaith y newidiadau'n fwy cyffredinol. Er enghraifft, roedd rhai'n cwestiynu sut roedd achosion yn cael eu hasesu, a gan bwy, tra bod eraill wedi sôn yn gadarnhaol y byddai'r newidiadau arfaethedig yn tynnu'r safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol at ei gilydd mewn ffordd gyson. Roedd ymatebydd arall o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn lleihau'r amser fyddai ei angen ar y Pwyllgor Ymchwilio i ddatrys pryderon.

Dadansoddiad cydraddoldeb

5. A oes unrhyw agweddau ar y meini prawf arfaethedig a allai gael effaith negyddol ar gleifion, aelodau o'r cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?

Oes	12	19%
Nac oes	51	81%
Cyfanswm	63	100%

6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effaith bosibl y meini prawf?

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd nifer o ymatebwyr yn ategu eu hatebion blaenorol, gan gynnwys sylwadau oedd yn nodi bod y meini prawf yn glir. Ychwanegodd eraill y byddai'r effaith yn dibynnu ar y canllawiau fyddai'n cyd-fynd â'r meini prawf a sut y byddai hynny'n sicrhau penderfyniadau cyson. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai effaith ar ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth, ac yn y CFFC, pe bai penderfyniadau anghywir yn cael eu gwneud neu achosion yn cael eu cau'n rhy gynnar. Yn yr un modd, nododd un sefydliad bod angen i'r meini prawf fod yn glir a'u defnyddio mewn ffordd deg, neu byddai risg bod ffydd y cyhoedd yn cael ei thanseilio.

Roedd un sefydliad o'r farn y byddai'r meini prawf arfaethedig yn cynyddu hyd ymchwiliadau, a chynyddu'r adnoddau fyddai eu hangen ar eu cyfer, mewn rhai achosion, ac y gallai hyn effeithio'n andwyol ar y rhai yr oedd ymchwiliadau'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw. Roedd un ymatebydd yn poeni y gallai arwain at fwy o bryder y byddai pobl yn cael eu herlyn ac y byddai llai, felly, o adrodd am faterion pryderus.

Atodiad A: Sefydliadau a ymatebodd

Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol

Blake Morgan LLP

Charles Russell Speechlys LLP

BLM

Awdurdod Safonau Proffesiynol

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU

Y Cyngor Optegol Cenedlaethol

Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol

Boots Pharmacists' Association

Pharmacy Voice

Pharmacists' Defence Association

Community Pharmacy Scotland

Celesio UK

Boots UK

Rowlands Pharmacy

Area Professional Pharmaceutical Committee NHS Ayrshire & Arran

University of Bradford

Northumberland, Tyne and Wear NHS Foundation Trust/Guild of Healthcare Pharmacists

Atodiad B: Digwyddiadau ymglymu'r CFfC

Digwyddiadau: Grwpiau ffocws a digwyddiadau ymglymu ar gyfer rhanddeiliaid

Grwpiau ffocws cleifion a'r cyhoedd - Caerdydd

Digwyddiad ymglymu ar gyfer rhanddeiliaid – Caerdydd

Grwpiau ffocws cleifion a'r cyhoedd - Glasgow

Digwyddiad ymglymu ar gyfer rhanddeiliaid - Glasgow

Grwpiau ffocws cleifion a'r cyhoedd - Llundain